Gweddi o Fyfyrdod

Gweddïo am bobl mewn amseroedd o argyfwng

Cyflwyniad i'r weddi:

Mae Cristnogion yn credu bod gweddïo yn gyfle i ddod a'n holl emosiynau ac anghenion y byd o flaen Duw. Gall fod o gymorth rhoi lle i ni ein hunain a'n gilydd deimlo ein teimladau, gan gynnwys galar a thristwch, i fynegi rhain ac i rannu gyda'n gilydd. I bobl o ffydd, mae'r sgyrsiau yma yn cael ei cynnig i Dduw mewn gweddi, gan gredu ei fod Ef yn gallu ein harwain a'n cynnal hyd yn oed yn yr amseroedd mwyaf anodd a mewn sefyllfaoedd enbyd.

Mae Cristnogion hefyd yn credu bod gweddi yn ofod pwerus i rannu ein gweledigaethau o obaith unwaith eto. Cadarnhau ein gobaith a'n credoau y gall ac y bydd y byd yn lle gwell. I ymrwymo i ni ein hunain, i'n gilydd, ac os ydym yn credu yn Nuw yna i Dduw hefyd, bod gennym syniadau anhygoel - mawr a bach - a all wneud y byd yn lle gwell i bawb.

Heddiw, rydym yn myfyrio gyda'n gilydd mewn tristwch am yr hyn sydd wedi digwydd yn Nhwrci a Syria. Rydym yn galaru am y bywydau a gollwyd, ac am y bobl sydd wedi colli anwyliaid, eu cartrefi, eu bywoliaeth, a'u teimladau o ddiogelwch. Dylem ganiatáu i'n hunain deimlo'r tristwch.

Ond rhaid i ni beidio â cholli golwg ar ein gobaith a'n hymrwymiad i wneud y byd yn lle mwy teg, mwy diogel a chariadus i bawb rydyn ni'n ei rannu ag ef.

Rydyn ni'n mynd i dreulio eiliad o dawelwch gyda'n gilydd. Beth bynnag fo'ch credoau crefyddol, cymerwch y foment hon i feddwl a theimlo gyda'ch gilydd. Cymerwch y foment hon i gydnabod eich emosiynau. Cymerwch y foment hon i ddal gafael ar obaith, ni waeth pa mor fawr neu fach.

Y Weddi:

Duw'r Creawdwr, fe wnaethost ti greu'r blaned wych hon rydyn ni'n ei galw'n gartref. Fe greaist hi allan o gariad, ac mae'n dda. Ti a greodd y byd a phawb sy'n ei alw'n gartref. Rwyt ti'n caru pob bod dynol, anifail a phlanhigyn. Mae'n calonnau ni'n torri wrth weld pobl yn dioddef. Gad i'n calonnau ni deimlo galar a thristwch yn dilyn colledion ofnadwy. Yn ein tristwch, gweddïwn fod y

cymorth cristnogol christian aid

Christian Aid is a key member of ACT Alliance. Eng and Wales charity no. 1105851 Scot charity no. SC039150 Company no. 5171525 Christian Aid Ireland: NI charity no. NIC101631 Company no. NI059154 and ROI charity no. 20014162 Company no. 426928 The Christian Aid name and logo are trademarks of Christian Aid. © Christian Aid June 2022 J121236

cymunedau yr effeithir arnynt yn teimlo eu bod yn cael eu caru gan y byd ehangach, eu bod yn cael eu meithrin a'u gofalu amdanynt. Gweddïwn fod eu hanghenion sylfaenol yn cael eu diwallu yn yr amser hwn o argyfwng.

Anogwch pawb sy'n bresennol i gymryd munud i gofio am bwysigrwydd pob un person. Mae pob person yn unigryw a bendigedig. Myfyriwch ar y bobl sydd wedi eu heffeithio gan yr argyfwng.

Duw sy'n adfer, gweddïwn am dy heddwch dros y rhai yr effeithir arnynt. Gweddïwn y bydd y rhai yr effeithir arnynt yn gallu dod o hyd i hapusrwydd eto yn y dyfodol, y gallent adfer eu cymunedau a'u cartrefi.

Helpa ni i wybod sut a phryd y gallwn helpu'r rhai sydd mewn angen.

Anogwch pawb sy'n bresennol i gymryd munud i fyfyrio ar sut all pawb gymryd rhan i gefnogi rheiny sydd mewn argyfwng – does dim rhaid bod yn bethau mawr.

Gallwch wahodd un neu ddau i rannu eu syniadau.

Duw sy'n addo, rwyt ti wedi addo i ni fod byd gwell yn bosibl. Trwot ti y gallwn ni wneud popeth. Rho'r dewrder i ni feiddio gobeithio am fyd gwell. Rho'r dewrder i ni gymryd rhan i wneud y byd yn lle tecach a mwy cariadus i bawb.

Anogwch pawb sy'n bresennol i gymryd munud i fyfyrio ar y rhesymau i fod yn obeithiol – efallai gallwch rannu eich rhesymau – pethau fel: pobl yn gweithio gyda'i gilydd i oroesi sialensau; y gymuned rhyngwladol yn ymateb yn bositif i roi cymorth; pobl arferol yn croesawi ffoaduriaid; gwaith angenrheidiol yn cael ei wneud gan elusennau yn rhyngwladol i helpu adfer cymunedau.

O Dduw, cymer ein gobeithion a'n meddyliau o sut y gallwn helpu eraill mewn argyfwng. Rho'r dewrder i ni wneud y pethau bach y gallwn i wneud y byd yn lle mwy cariadus.
Amen.

cymorth cristnogol christian aid

Christian Aid is a key member of ACT Alliance. Eng and Wales charity no. 1105851 Scot charity no. SC039150 Company no. 5171525 Christian Aid Ireland: NI charity no. NIC101631 Company no. NI059154 and ROI charity no. 20014162 Company no. 426928 The Christian Aid name and logo are trademarks of Christian Aid. © Christian Aid June 2022 J121236